Cyswllt Amgylchedd Cymru | Wales Environment Link

Maniffesto | Mai 2021





Cyflwyniad

Rydym yn byw mewn Cymru wahanol i'r un lle sefydlwyd y Pumed Cynulliad ym mis Mai 2016. Mae Brexit a'r argyfwng Covid-19 wedi creu heriau newydd, yn ogystal ag amlygu'r materion brys sydd eto i'w datrys gennym. Nawr, yn fwy nag erioed, mae angen i Gymru arwain y ffordd wrth weithredu'n gadarn i adfer byd natur a mynd i'r afael â newid hinsawdd er budd ein pobl, ein hamgylchedd a'n gwytnwch yn y dyfodol.

Ni fydd unrhyw lywodraeth yng Nghymru yn y dyfodol na fydd yn profi rhyw fath o ddigwyddiad argyfwng o ganlyniad i'n hinsawdd sy'n newid. Cyn y pandemig Covid, cafwyd cwymp glaw a llif afonydd nas gwelwyd o'r blaen yn y DU ac o ganlyniad i'r llifogydd collodd llawer o bobl eu tai a'u busnesau. Rhagwelir nawr y bydd llifogydd 'can-mlynedd' hanesyddol yn digwydd rhwng pob un a thrideg mlynedd. Ar y cyd â llifogydd, bydd cynnydd yn nhymheredd y ddaear a phlanhigion a bywyd gwyllt yn diflannu o'r tir yn creu argyfwng anorchfygol na fydd cymdeithas yn gallu ei oresgyn.

Mae angen i Lywodraeth nesaf Cymru ystyried hyn fel cyfle i roi newid trawsffurfiol ar waith, gyda chefnogaeth ac anogaeth dinasyddion Cymru. Mae angen adferiad gwyrdd a glas, o'n tir a'n môr, a dim ond fel newid traws-lywodraethol a thraws-gymdeithasol y gall hyn ddigwydd. Mae angen i ni fuddsoddi ariannu digonol ar gyfer mynd i'r afael yn uniongyrchol â heriau amgylcheddol tra'n sicrhau bod anghenion byd natur ac iechyd ein planed yn cael eu hystyried yn llawn mewn penderfyniadau polisi ledled pob maes llywodraethol.

Yng Nghymru, yn benodol, **cafwyd nad oedd unrhyw un o'n hecosystemau yn wydn** ac mae llawer o'n rhywogaethau ar fin diflannu o'r tir. Mae'n rhaid i ni weithredu ar frys nawr ac efallai mai tymor y Senedd hwn fydd y cyfle olaf i flaenoriaethu ein hamgylchedd yn y ffordd sydd ei angen ar genedlaethau'r dyfodol.

Mae Cyswllt Amgylchedd Cymru yn galw ar Lywodraeth nesaf Cymru i flaenoriaethu adferiad gwyrdd a theg, yn unol â'r egwyddorion yr ydym wedi eu llunio, a sicrhau bod twf economaidd a thwf amgylcheddol yn gyfystyr â'i gilydd. **Mae angen i'n economi fod yn wyrdd ac yn gynaliadwy, yn canolbwyntio ar gynnal adnoddau drwy economi cylchol ac optimeiddio lles y boblogaeth drwy economi llesiant**. Dyfodol lle mae: swyddi gwyrdd a glas yn cael blaenoriaeth; lle nad ydy diwydiannau sy'n llygru neu'n niweidio byd natur yn derbyn cefnogaeth ein harweinwyr; lle mae gofod gwyrdd a glas yn cael blaenoriaeth ar gyfer llesiant; a lle mae buddsoddi mewn teithio gweithredol ac opsiynau gweithio hyblyg yn cael eu hyrwyddo gan bob sector.



Adfer byd natur a mynd i'r afael â newid hinsawdd er budd ein pobl, ein hamgylchedd a'n gwytnwch yn y dyfodol

Llun clawr blaen
© Rebecca James, Plantlife

Yn unol â hyn, rydym yn galw ar Lywodraeth Cymru i ddarparu'r canlynol:

- System reolaeth tir gynaliadwy sy'n helpu i adfer byd natur a'r amgylchedd ac sy'n seiliedig ar yr egwyddor o dalu arian cyhoeddus i ffermwyr a rheolwyr tir eraill am ddarparu nwyddau cyhoeddus.
- Adfer ein cefnforoedd er mwyn gwireddu moroedd gwydn sy'n llawn bywyd gwyllt a fydd, yn eu tro, yn cynnal cymunedau a busnesau ein harfordir.
- Creu corff llywodraethu amgylcheddol a sefydlu egwyddorion o Gyfarwyddiadau'r UE, ochr yn ochr â thargedau byd natur statudol.
- Dod â llygredd plastig i ben drwy greu economi cylchol.
- Sefydlu eco-lythrennedd yn ein lleoliadau addysgiadol a hyrwyddo presgripsiynau gwyrdd yn y GIG, tra'n annog mwy o fynediad cyhoeddus i leoliadau llawn byd natur mewn ardaloedd trefol a gwledig.

Isod rydym yn ehangu ar ein **pum prif gofyniad** ac yn gofyn i bleidiau gwleidyddol sicrhau bod y rhain yn cael blaenoriaeth yn nhymor nesaf y Senedd, fel ein cyfle olaf i fynd i'r afael â'r argyfyngau hinsawdd ac ecolegol ac i sicrhau iechyd, ffyniant a gwytnwch Cymru yn y dyfodol.

Gofynion allweddol

1 | Mesur Ffermio Cynaliadwy a Rheolaeth Tir

Dengys tystiolaeth gynyddol bod ymarferion ffermio anghynaladwy ledled Cymru yn effeithio'n negyddol ar fyd natur a'r amgylchedd ehangach. Mae'r pandemig hefyd wedi amlygu ein dibyniaeth ar system fwyd sy'n fregus yn fyd-eang. Wrth ymadael â'r UE fe'n darparwyd â chyfle unigryw i sefydlu polisïau newydd a fydd yn defnyddio arian cyhoeddus i helpu ffermwyr a rheolwyr tir eraill i adfer bioamrywiaeth a'r ecosystemau a grëir gan fyd natur, lliniaru newid hinsawdd a chynnal ein gallu i gynhyrchu bwyd a nwyddau eraill ar gyfer y genhedlaeth hon a chenedlaethau'r dyfodol.

Dymuniad y Cyswllt yw gweld blaenoriaeth am Fesur Ffermio Cynaliadwy a Rheolaeth Tir ar frys ar gyfer 6ed tymor y Senedd, un y byddwn wedi newid yn llwyr iddi erbyn 2025. Dyma'r adeg i sefydlu system wreiddiol benodol ar gyfer ffermwyr a rheolwyr tir Cymru sy'n defnyddio arian cyhoeddus i'w gwobrwyo am adfer byd natur a mynd i'r afael â newid hinsawdd ac sy'n hyrwyddo cynhyrchu cynaliadwy, teg ac amrywiol a chadwyni cyflenwi ar gyfer bwyd a nwyddau eraill. Byddai'r Ddeddf hon yn cymryd lle Polisi Amaeth Cyffredin y DU sydd wedi dod i ddiwedd ei oes ac sy'n niweidiol i fywyd gwyllt. Hoffem hefyd weld Cymru'n sicrhau ariannu digonol ar hyn yn seiliedig ar angen yn hytrach na fformiwla Barnett.

Mae angen i fioamrywiaeth fod wrth wraidd rheolaeth tir yn y dyfodol. Mae **Cynhyrchedd Cynaliadwy Uchaf (MSY) y Cyswllt yn amlinellu rhai o'r nwyddau cyhoeddus y gellir eu hadfer a'u cynnal drwy gyfrwng y dull hwn**, yn cynnwys, er nad yn gyfyngedig i: gwella bioamrywiaeth drwy reoli a chreu cynefinoedd ar gyfer bywyd gwyllt, yn cynnwys plannu strategol o goed, sicrhau a chynnal llwybrau i'w defnyddio gan y cyhoedd a chynnal lefelau ansawdd dŵr ac ansawdd awyr uchel.





System reoli tir gynaliadwy sy'n helpu i adfer byd natur a'r amgylchedd


© Emily Williams


© Liz Smith

Mae arnom angen rhwydweithiau ecolegol newydd ac wedi eu hadfer

I sicrhau bod ein hadnoddau naturiol yn cael eu hadfer a'u rheoli'n gynaliadwy, **mae angen gweithredu ar frys i warchod ac adfer ein hamgylchedd rhag gweithrediadau niweidiol, yn cynnwys llygredd amaethyddol**. Mae'n rhaid i Lywodraeth Cymru gyflwyno mesurau effeithiol ar frys, yn cynnwys rheoliadau, sy'n rhwystro llygrwyr – megis biswail a chemegau a gynhyrchir (gwrteithiau, plaladdwyr/chwynladdwyr) – rhag mynd i mewn i'n hatmosffer lle mae'n effeithio ar rywogaethau prin o blanhigion a ffwng, a'n hafonydd lle mae'n distrywio ein poblogaethau o bysgod a bywyd gwyllt arall. Mae angen i ni hefyd weld Awdurdodau Lleol yn wir ystyried effaith gronnol ffermio dwys, yn cynnwys unedau dofednod, sy'n cael effaith ddinistriol gynyddol ar ansawdd dŵr ac awyr.

Mae arnom angen gweld polisïau sy'n galluogi rhwydweithiau ecolegol newydd a rhwydweithiau wedi eu hadfer, sy'n cynnwys safleoedd gwarchodedig a reolir yn dda ledled Cymru. Mae hyn yn cynnwys rheoli a chysylltu gwrychoedd, gwelltir a choedwigoedd ar gyfer bioamrywiaeth. Mae'n rhaid i unrhyw Lywodraeth Cymru yn y dyfodol gynnal yr ymrwymiad i'r Goedwig Genedlaethol, sy'n gyfle gwych i greu rhwydwaith adfer byd natur newydd, gyda mynediad I'r cyhoedd a mwynhad fel rhan hanfodol ohono. Mae arnom angen hefyd Gynllun Gweithredu Adferiad Byd Natur a ariennir yn ddigonol ac sy'n blaenoriaethu ein rhywogaethau sy'n wynebu'r risg mwyaf yn ogystal â hybu gweithredu i wrthdroi eu prinhad. Heb rwydweithiau ecolegol gwydn ledled Cymru, bydd ein bywyd gwyllt yn parhau i brinhau.

Ein dymuniad yw gweld Cymru'n cynnal ac yn atgyfnerthu ein safonau amgylcheddol, lles anifeiliaid a diogelwch bwyd, heb golli'r hyn oedd gennym o'r blaen. Mae angen i ni sicrhau na fydd cytundebau masnach y dyfodol yn peryglu gwarchodaeth amgylcheddol, lles anifeiliaid na safonau bwyd Cymru a'r DU; gofynnwn am bolisi masnach sy'n mynd i'r afael ac sy'n ymateb i'r argyfyngau hinsawdd ac ecolegol.


© Andy Pearson


© Andy Pearson


© Brian Yurasits


© Andy Pearson

2 | Adferiad uchelgeisiol Moroedd Cymru

Mae moroedd Cymru draean yn fwy nag arwynebedd tir Cymru ac mae dros 60% o boblogaeth Cymru yn byw ac yn gweithio ar yr arfordir. Serch hynny, dengys asesiadau Llywodraeth Cymru ei hun nad yw moroedd Cymru mewn cyflwr da a bod anghenion deddfwriaethol i warchod ein hecosystemau morol wedi eu methu. Rydym yn ymbil ar Lywodraeth newydd Cymru i adfywio'r gwaith ar Reolaeth Forol Gynaliadwy ac ymrwymo i wella cynhwysedd y Llywodraeth ei hun a Chyfoeth Naturiol Cymru ac arbenigedd technegol ac ariannu yn y maes hwn, sydd wedi dioddef diffyg adnoddau dro ar ôl tro.

Mae'r amgylchedd morol yn dioddef ystod o bwysau, sy'n amrywio o **sbwriel morol i ddatblygiadau yn y môr ac echdynnu adnoddau naturiol, yn ogystal â llygredd morol a newid hinsawdd**. Ni chafwyd digon o gynnydd wrth fynd i'r afael â'r pwysau yma yng Nghymru; mae bron i 50% o fywyd gwyllt gwarchodedig ein moroedd mewn cyflwr gwael, ac mewn rhai o bysgodfeydd allweddol Cymru nid oes mesurau rheolaeth priodol ar waith.


Mae sbwriel morol hefyd yn broblem gynyddol, gyda gwirfoddolwyr Glanhau Mawr y Traeth 2019 yn casglu 162 darn o blastig ar gyfartaledd ym mhob 100m. Mae hyn yn digwydd **er gwaethaf cefnogaeth gyhoeddus eang i weithredu ar frys ar blastig ac i fynd i'r afael â llygredd plastig ym mhob man posib**. Mae Llywodraeth Cymru ac eraill wedi methu ac ateb ymrwymiadau ar gadwraeth forol, yn cynnwys y gofyniad i sicrhau Statws Amgylcheddol Da ein moroedd erbyn 2020 yn unol â'r Rheoliadau Strategaeth Forol 2010. Ni allwn bellach gyfiawnhau'r status quo; mae angen i ni adfer ein moroedd, os ydym i weithredu adferiad gwyrdd a glas llawn.

Mae'r meysydd canlynol yn amlygu cyfleoedd allweddol i Lywodraeth Cymru wrthdroi hyn ac i ddod yn arweinwyr ar reolaeth forol gynaliadwy:

- Mae gwireddu rhwydwaith uchelgeisiol o **Ardaloedd Gwarchodedig Morol a reolir yn dda** yn hanfodol. Dylai hyn gynnwys dynodi Parthau Cadwraeth Morol, yn ogystal â safleoedd sy'n derbyn gwarchodaeth lawn ac ardaloedd gwarchodedig ar gyfer rhywogaethau symudol. **Rydym yn argymell y dylai o leiaf 10% o ddyfroedd Cymru gael eu gwarchod yn llawn erbyn 2030**, fan bellaf. Hefyd, dylid ymgynghori ar fesurau rheolaeth yr ydym wedi aros yn hir amdanyn nhw ar gyfer pysgodfeydd mewn Ardaloedd Gwarchodedig Morol. Byddai ymrwymiad i **gronfa ariannu penodol ar gyfer Ardaloedd Gwarchodedig Morol, gyda lefelau o ariannu sy'n gyfartal â rhai ar gyfer rheolaeth tir**, hefyd yn gam ymlaen.
- Mae tystiolaeth forol yn gyfyngiad ar ddarpariaeth cadwraeth forol. I fynd i'r afael â hyn, rydym yn pwyso ar y Llywodraeth newydd i gynhyrchu **cynllun gweithredu a ariennir i wireddu'r Strategaeth Dystiolaeth Forol**, yn ymwneud yn arbennig â'r adran ar fyw o fewn cyfyngiadau amgylcheddol.
- Dylai **deddfwriaeth a pholisïau pysgodfeydd y dyfodol ddilyn dull o weithredu sy'n seiliedig ar yr ecosystem**. Dylai hyn gynnwys adnabod a lleihau effaith pob pysgodfa (yn cynnwys pysgodfeydd nad ydyn nhw yng Nghymru) yn y rhanbarth

Mae angen i ddeddfwriaeth pysgodfeydd y dyfodol weithredu mewn dull sy'n seiliedig ar yr ecosystem


© Kelly Thomas


© Cymdeithas Eryri

Cymreig, y mae gan Lywodraeth Cymru gyfrifoldeb cynyddol amdanyn nhw wedi Brexit.

- **Mae'n rhaid i Bolisi Morol y dyfodol adnabod y cysylltau gydag ymarferion rheolaeth dŵr effeithiol**. Mae angen i ni fabwysiadu dull 'ffynhonnell i'r môr' o weithredu rheolaeth afonydd a physgodfeydd sy'n cydnabod bod iechyd ein cefnforoedd yn gyfystyr ag iechyd ein hafonydd.
- Dylid dod â datblygiad **Strategaeth Adferiad Adar Môr** ymlaen i fynd i'r afael â'r ffaith fod crynodeb y cynnydd ar y Strategaeth Forol yn dosbarthu adar fel rhai mewn 'sefyllfa sy'n prinhau ers 2012'.
- **Mynd i'r afael ar frys â materion sy'n wynebu mamaliaid morol yn nyfroedd Cymru**, drwy gyflwyno gweithrediadau a mesurau effeithiol a chyflym wedi eu targedu, yn y safleoedd perthnasol. Mae angen **tîm hinsawdd morol** yn Llywodraeth Cymru i sicrhau bod ystyriaethau morol yn cael eu cynnwys yn effeithiol a'u datblygu yn strategaethau a chynlluniau newid hinsawdd y Llywodraeth. Dylai hyn gynnwys gwaith i warchod **cynefinoedd carbon glas**..
- Ein dymuniad yw gweld **adnewyddion morol yn cael eu profi a'u defnyddio yng Nghymru mewn modd sensitif sydd mewn harmoni â bywyd gwyllt**. Mae angen profi datblygiadau newydd ar raddfa briodol a thros gyfnod o amser priodol i alluogi dysgu, monitro ac ymatebion cyflym i unrhyw effeithiau niweidiol. Byddai cynllun datblygu morol yn sicrhau bod hyn yn cael ei wneud yn strategol.

3 | Llywodraethu ac Egwyddorion Amgylcheddol Wedi'r Newid

Mae gadael yr Undeb Ewropeaidd wedi golygu canlyniadau sylweddol o ran llywodraethu amgylcheddol yng Nghymru. Tra'n bod yn flaenorol yn defnyddio trefn lywodraethu Ewrop-gyfan oedd yn arwain y byd, mae angen i ni nawr gymryd camau i wireddu ein gwiriadau a'n cydbwysedd ein hunain i sicrhau bod egwyddorion a gwarchodiadau amgylcheddol yn cael eu hatgyfnerthu; lle nad oes lliniaru ar fecanweithiau cwyno a chryfder cywiradau; a lle y cedwir ymdrechion ar y cyd i oresgyn dirywiad amgylcheddol.

Mae aelodau'r Cyswllt wedi bod yn gweithio'n agos gyda Llywodraeth Cymru ar ddeddfwriaeth Llywodraethu ac Egwyddorion Amgylcheddol newydd am nifer o flynyddoedd ac wedi galw'n gyson am gyflwyno hon ar frys i'r Senedd i **osgoi adlithriad difrifol yn ein system lywodraethu a hawliau dinasyddion ar ddiwedd y Cyfnod Newid**.

Mae Cymru nawr yn debygol o fod â 'threfniadau dros dro' llawer mwy cyfyngedig mewn grym o fis Ionawr 2021 nes y bydd corff gwarchod amgylcheddol annibynnol newydd yng Nghymru yn llwyr weithredol. Ni ddylai Llywodraeth nesaf Cymru ganiatáu i'r 'trefniadau dros dro' yma barhau yn hirach na'r hyn sydd yn hollol angenrheidiol. Mae'r Cyswllt yn galw am gorff Llywodraethu Amgylcheddol newydd ac annibynnol yng Nghymru a fydd yn gweithredu'n llawn yn neuddeg mis cyntaf y Senedd nesaf – yn cynnwys trefniadau trawsffiniol priodol wrth ymdrin â chwynion, cydymffurfio a datrysiad digwyddiadau amgylcheddol.

Mae arnom angen targedau byd natur statudol yng Nghymru

Mae angen i ni hefyd gywiro colled yr egwyddorion amgylcheddol sydd wedi bodoli yn ein deddfwriaeth UE yn unig ac nid yng Nghymru. Mae angen cynnwys yr egwyddor 'y llygrwr yn talu' a'r egwyddor 'cywiro yn y ffynhonnell' ac, er eglurder, i weld y chwe egwyddor i gyd yn cael eu mynegi'n eglur a'u cynrychioli'n groyw mewn deddfwriaeth gynradd Gymreig.

Collodd dinasyddion Cymru, wedi 31 Rhagfyr 2020, lawer o hawliau a gwarchodiadau na fyddai llawer o'r cyhoedd yn gwybod eu bod hyd yn oed yn bodoli. Roedd y gallu i gwyno, heb gostau sylweddol nag anhawster, i Gomisiwn yr UE am lygredd amgylcheddol a thorri cyfyngiadau rheoledig yn torri tir newydd ac **mae'n rhaid i ni sicrhau bod amnewidiad priodol yn cael ei osod ar frys fel blaenoriaeth gan Lywodraeth nesaf Cymru**. Mae colled y trefniadau llywodraethu yma'n golygu na all dinasyddion herio Llywodraeth y DU na Llywodraeth Cymru sy'n methu â gweithredu eu polisïau a'u deddfwriaeth eu hunain ar warchodaeth amgylcheddol. Dyma fater o gyfiawnder cymdeithasol ac ni allwn adael i ddad-reoli ganiatáu difrod pellach i amgylchedd Cymru.

Ein dymuniad yw gweld Cymru yn adfer byd natur a'i werthfawrogi'n llawn drwy lywodraeth a'i brosesau gwneud penderfyniadau. I wneud hyn, **rydym yn galw am gyfres o dargedau byd natur statudol i sicrhau cyfeiriad a blaenoriaeth gwella byd natur ledled polisïau llywodraethol**. Yn yr un ffordd y gall targedau carbon yrru lleihad mewn carbon, byddem yn disgwyl i dargedau bioamrywiaeth helpu Llywodraeth Cymru i werthfawrogi a blaenoriaethu byd natur yn llawn. .

Fe all hyn gynnwys adolygu ein gwarchodiadau presennol a newid deddfwriaeth flaenorol. Yn Neddf Lles Cenedlaethau'r Dyfodol a Deddf yr Amgylchedd sefydlwyd egwyddorion datblygiad cynaliadwy, amcanion llesiant, dulliau o weithredu, dyletswyddau bioamrywiaeth, cyllido ar gyfer carbon a chydweithredu gyda'r sector cyhoeddus. Fe all yr amcanion hyn wella'r ffordd y mae cyrff cyhoeddus a byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus yn cydymffurfio â'r Deddfau hyn. Dylai'r rhain gael eu newid er mwyn cynorthwyo gyda chreu **casgliad holistaidd o ddeddfwriaeth gwarchodaeth amgylcheddol, i sicrhau na fydd gadael yr UE yn golygu gadael amgylchedd iach y tu ôl i ni**.

4 | Rhwystro Gwastraff a Dod â Llygredd i Ben

Ein dymuniad yw gweld Cymru'n cymryd y rôl o arwain y byd mewn sicrhau dim-gwastraff a gwireddu'r uchelgais i greu economi cylchol. Mae Cymru'n gallu, ac fy ddylai, fod yn arwain ar y mentrau hyn, gan adeiladu ar lwyddiannau blaenorol y tâl am fag cludo un-defnydd a thargedau ailgylchu cartrefi. Mae'n rhaid i atal gwastraff, yn anad dim arall, fod wrth wraidd y canolbwynt newydd a hoffem weld sefydlu targedau lleihau gwastraff i sicrhau hyn. Wrth adeiladu ar fomentwm ymwybyddiaeth y cyhoedd am blastigau yn yr amgylchedd, rhaid i ni fynd i'r afael â'r cynnydd yn y defnydd o blastig un-defnydd, yn ogystal â buddsoddi mewn ymdrechion i hyrwyddo ail-ddefnyddio drwy fuddsoddiad mewn isadeiledd a mentr. Dylid ymarfer pwyll er mwyn peidio â defnyddio deunyddiau eraill yn lle plastigau all beri niwed yn y dyfodol.


© Emily Williams

Ni ddylai gadael yr UE olygu gadael amgylchedd iach


© Andy Pearson


© Jemma Bere


© Matt Pitts, Plantlife

Heb weithredu ar lygredd amaethyddol, bydd ein hafonydd yn parhau i ddiraddio nes na fydd bywyd gwyllt yn gallu byw ynddyn nhw


© Trevor Dines, Plantlife


© James King

Bydd Deddf Amgylchedd y DU yn sicrhau pwerau eang eu hystod i Weinidogion Cymru ar blastigau a phecynnu a hoffem weld hon yn cael ei rhoi ar waith cyn gynted â phosib.

Dymuniad y Cyswllt yw gweld Cynllun Dychwelyd Blaendal yng Nghymru sy'n cynnwys 'pob dim'. Wrth unioni elfennau gyda gweddill y DU, byddem yn pwyso am gynllunio Cynllun Dychwelyd Blaendal ar gyfer Cymru, er budd economi Cymru, fel nad yw'r buddion yn cael eu colli i gynllun potensial ledled y DU. Ein dymuniad yw gweld hyn yn cael ei ddatblygu ar y cyd â mecanweithiau ariannol eraill, megis cyflwyniad ardoll ar gynnyrch un-defnydd sy'n anodd eu hailgylchu a gwaharddiad ar gynnyrch nad oes modd eu hailgylchu o gwbl. I gynyddu ymhellach ein graddfeydd ailgylchu ac i hybu ymwybyddiaeth, bydd yn angenrheidiol cyflwyno cynllun statudol am ddull o weithredu casgliad gwastraff safonol a chyson ledled Cymru. Mae'n rhaid i Gymru hefyd fwrw ymlaen â chyflwyno cyfrifoldeb ehangach ar gynhyrchwyr fel eu bod yn gyfrifol am y costau cylch bywyd llawn o olrhain y cynnyrch hyd at ddiwedd ei oes.

Rydym yn pwyso ar Lywodraeth Cymru i fod yn uchelgeisiol wrth **greu economi cylchol gyda gwir fuddsoddiad mewn isadeiledd, sy'n sicrhau cyn lleied â phosib o wastraff, sy'n lleihau'r defnydd o ddefnyddiau newydd sbon ac sy'n darparu cyflogaeth uniongyrchol a medrau i bobl Cymru**. Dylai Cymru, er mwyn gwireddu hyn, fabwysiadu Pecyn Economi Cylchol yr UE yn ein deddfwriaeth gartref. Fan leiaf, hoffem weld ymrwymiad i'r 'Hawl i Drwsio' a mabwysiadu'r egwyddorion a amlinellir yng Nghyfarwyddyd Eco-gynllun yr UE.

Mae angen gwireddu'r potensial ar gyfer y sector ail-ddefnyddio a thrwsio ac mae angen mentrau a arweinir gan y llywodraeth i sicrhau eu ffyniant. Fe all hyn gynnwys gostyngiadau treth am drwsio, buddsoddiad mewn 'prentisiaethau trwsio', casgliadau tecstilau wedi eu targedu, caffis trwsio, ac archwiliadau adnoddau-effeithiol o unrhyw ddigwyddiadau a ariennir gan arian cyhoeddus.

Mae ansawdd awyr hefyd yn flaenoriaeth i Gymru, gan nad yw wedi ateb safonau derbyniol dro ar ôl tro mewn rhai ardaloedd. Mae llygredd awyr yn niweidiol i bobl, bywyd gwyllt a'r blaned; dylai Deddf Awyr Lân yn y dyfodol weithredu'n llym er mwyn lleihau pob math o lygrwyr yn ein hawyr. **Mae angen i ni hefyd fynd i'r afael â'r ffordd y mae llygredd amaethyddol yn effeithio ar ein hafonydd; heb weithredu, bydd ein hafonydd yn parhau i ddiraddio nes na fyddan nhw'n gallu cynnal bywyd gwyllt**.

O ran cludiant, byddem yn disgwyl i Ddeddf Awyr Lân i Gymru ganolbwyntio ar isadeiledd cludiant cyhoeddus hygyrch a chyfleus, llwybrau teithio gweithredol, atebion yn seiliedig ar fyd natur ac mae'n rhaid iddi gynnwys casgliad eglur o fesurau codi ymwybyddiaeth er mwyn cynyddu dealltwriaeth ac ymwneud y cyhoedd. Bydd rhaid i unrhyw gosb neu daliadau cerbydau liniaru'r effaith niweidiol potensial ar weithwyr sy'n derbyn tâl isel.

5 | Blaenoriaethu eco-lythrennedd a mewnosod presgripsiynau gwyrdd yn y GIG, ar gyfer y genhedlaeth hon a chenedlaethau'r dyfodol

Er mwyn datblygu cenhedlaeth yn y dyfodol a fydd yn berchen ar y medrau i ddygymod â heriau'r degawdau sydd ar ddod, mae angen i ni sicrhau bod eco-lythrennedd – addysg am yr argyfwng bioamrywiaeth a mynd i'r afael â newid hinsawdd, mewn dull o weithredu a arweinir gan ddinasyddion – yn cael ei fewnosod yng nghwricwlwm newydd Cymru a'r Ardaloedd Dysgu. Ni ddylai hyn ddigwydd mewn sefydliadau dethol ond mi ddylen nhw fod yn gyffredin ledled pob grŵp a sefydliad addysgol o feithrinfeydd i glybiau ieuenctid a cholegau Addysg Bellach.

Er bod astudiaethau'n dangos effeithiolrwydd presgripsiynau gwyrdd ar iechyd meddwl, nid yw eto yn ymarfer gorau i gyfeirio pobl at wasanaethau sy'n seiliedig ar fyd natur cyn eu cyfeirio at restrau aros hirach am wasanaethau iechyd meddwl. Dymuniad Cyswllt Amgylchedd Cymru yw gweld GIG Gwyrdd a fydd yn gweithio mewn partneriaeth â chyrff anllywodraethol Cymru i ddosrannu presgripsiynau ar gyfer ymarfer, gwarchodfeydd natur, grwpiau cymunedol, a gwaith gwirfoddol. Bydd sicrhau cymaint o bobl â phosib yn ein hamgylchedd ac yn edrych ar ei ôl yn ased i lesiant y cyhoedd, yn enwedig pan ddaw hi i'r argyfwng byd natur.

Ar gyfer ein gofyniad cyntaf am eco-lythrennedd, mae angen i ni gynnwys yr argyfyngau hinsawdd ac ecolegol yn hyfforddiant athrawon, gan sicrhau rhan cymunedau, rhieni ac arweinwyr y sector cyhoeddus mewn sicrhau bod addysg yn canolbwyntio ar gymryd rhan yn lleol ac yn ymarferol mewn strwythurau sydd eisoes yn bodoli. Dylid creu achrediad proffesiynol hefyd, i helpu'r sawl sy'n dysgu eco-lythrennedd i grwpiau oedran amrywiol; dylai hyn gynnwys pobl o bob oed a'i hyrwyddo mewn colegau.

Mae angen i ni sicrhau hefyd bod mecanweithiau yn cael eu darparu fel bod pobl ifainc yn gallu gwir arwain ar y gwaith hwn. Mae myfyrwyr a gweithredwyr ifainc yn cyflwyno syniadau gwych a dulliau rhesymegol i sicrhau bod eu hysgolion a'u bywydau yn fwy cynaliadwy a chreu dyfodol sy'n gyfeillgar i'r hinsawdd. Yn anffodus, mae rhwystrau'n bodoli'n aml sy'n rhwystro rhai o'r syniadau positif yma rhag cael eu gweithredu. Fe all y rhwystrau hyn fodoli ar lefel leol a chenedlaethol. Mae'n hanfodol bwysig felly bod y llwybrau tuag at sicrhau newid positif a pharhaol yn derbyn cefnogaeth Llywodraeth Cymru a llywodraethau lleol fel bod pobl ifanc yn cael eu grymuso i barhau i gyflwyno mewnbwn a ddim yn cael eu dadrithio. Mae angen i hyn gynnwys Senedd Ieuenctid, grwpiau ieuenctid a mentrau fel Dysgu'r Dyfodol a rhaglen Eco-Ysgolion Cadw Cymru'n Daclus.

O ran yr ail ofyniad ar bresgripsiynau gwyrdd, **ein dymuniad yw atgyfnerthu'r cyswllt rhwng yr amgylchedd a lles, ar lefel bersonol a chymunedol**. Mae hyn yn dibynnu'n fawr ar hyrwyddo mynediad teg i bawb i ofod cyhoeddus, a ddylai fod yn rhan o'r cynllun rheoli tir cynaliadwy newydd a pholisïau cynghorau i hyrwyddo parciau, gofod agored a thir gwyrdd.

Dylai Iechyd Cyhoeddus Cymru fod yn bartner allweddol gyda mewnosod presgripsiynau gwyrdd; ar hyn o bryd, y cwbl sydd wedi bod yn digwydd yw cynlluniau peilot mewn clystyrau Meddygon Teulu a Byrddau Iechyd dethol. **Ein dymuniad yw gweld presgripsiynau gwyrdd fel y cam cyntaf, lle bod hynny'n briodol, ar gyfer iechyd corfforol a meddyliol**. Er enghraifft, fe all hyn gynnwys cyfeirio cleifion at ymarfer corff ar gyfer gordewdra gan ganolbwyntio ar grwpiau ffitrwydd lleol a mynediad i lwybrau cerdded/rhedeg a beicio; cyfeiriadau at wirfoddoli'n seiliedig ar fyd natur ar gyfer pryder, iselder a chyflyrau iechyd meddwl priodol eraill; a phwyslais ar bobl ifainc a fyddai'n gallu ei ddefnyddio fel cyfle i gymdeithasu a dysgu o'u cyfoedion, yn ogystal â'r athrawon sy'n rhoi'r projectau ar waith.

Mae'r ddau ofyniad yma'n gweithredu fel 'man mynediad' at fyd natur i'r cyhoedd ehangach a mewnosod dysgu amgylcheddol a buddion byd natur yn nau gynhaliwr y sector cyhoeddus; y GIG ac ysgolion.


© Gordon Price

Mae angen i fyd natur fod ar y blaen ac yn ganolog mewn ysgolion a'r GIG

Rhwydwaith o Gyrff amgylcheddol, cefn gwlad a threftadaeth Anllywodraethol Cymru, yw Cyswllt Amgylchedd Cymru. Corff cyfryngol sydd yn uchel ei barch, yn cysylltu'r llywodraeth gyda'r sector amgylcheddol anllywodraethol yng Nghymru. Ein gweledigaeth yw amgylchedd iach yng Nghymru sydd yn ffynnu ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

Cyswllt Amgylchedd Cymru | Wales Environment Link

www.waleslink.org

Cyswllt Amgylchedd Cymru (Elusen Gofrestredig 1022675)
© 2020 Cyswllt Amgylchedd Cymru